Cynllun Gweithredu

# Gwefru Cerbydau Trydan

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



Rhondda Cynon Taf
Hinsawdd Ystyriol
Think Climate
Rhondda Cynon Taf

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

RHONDDA CYNON TAF

# CYNNWYS

**Cyflwyniad a Chyd-destun** ... 03
Gweithredu'r Cynllun ... 03
Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion ... 04

**Cyflwyno Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan** ... 05
Dewis Safle ... 06
Dyluniad y Safle a Hygyrchedd ... 07
Gosodiad Trydanol Cychwynnol ... 10
Uned Wefru Cerbydau Trydan ... 11
Gweithredu a Diogelwch ... 11

**Cyfleoedd Gwefru Amrywiol** ... 12
Gwefru Tacsis ... 12
Gwefru Bysiau ... 12
Mân Gerbydau ... 12
Clybiau Ceir ... 12


**Cynllun Gweithredu** ... 13

**Rhestr Termau** ... 14
Mathau o gerbydau ... 14
Gwefru ... 14

**Atodiad** ... 15




# Cyflwyniad a Chyd-destun



## Gweithredu'r Cynllun


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i hyrwyddo a, lle bo'n briodol, galluogi rhwydwaith gwefru cynhwysfawr, drwy gynyddu'r ddarpariaeth o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Felly, bwriad y Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan yma a'r Cynllun Cyflawni Mewnol dilynol a'r Cynllun Cyflawni Seilwaith yw nodi disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer y ddarpariaeth gynyddol o seilwaith gwefru ar draws y Fwrdeistref Sirol. Bydd y dogfennau'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ddarpar ddatblygwyr ar y broses o gynllunio gosodiadau ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar leoliadau gwefru oddi ar y stryd ar draws y Fwrdeistref Sirol.





## Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion



Ysgrifennwyd y Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan yn dilyn cyhoeddi **Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan**. Mae'r Strategaeth yn nodi deilliannau a dyheadau dymunol sydd â'r nod o gydlynu dull gweithredu ledled y Fwrdeistref Sirol i hyrwyddo ac annog datblygu rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cadarn yn y tymor byr, canolig a hir.

Diben y Cynllun Gweithredu yma yw nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith gwefru ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae hefyd yn argymell y camau gweithredu byr, canolig a pharhaus sydd eu hangen, fel y nodir yn Ffigur 1 yn yr Atodiad. Mae'r Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar y deg uchelgais a nodir yn glir yn y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan, gweler Ffigur 2 yn yr Atodiad.

Nod y Cynllun Gweithredu yw:

- **Nodi themâu allweddol i gefnogi darpariaeth y Cyngor o seilwaith gwefru ar draws y Fwrdeistref Sirol.**
- **Darparu arweiniad a chyngor ar arfer gorau i ddatblygu rhwydwaith cynhwysfawr o bwyntiau gwefru cerbydau trydan sy'n ymateb i'r galw presennol am seilwaith cerbydau trydan ac sy'n darparu ar gyfer y defnydd o gerbydau trydan yn y dyfodol gan gyflymu'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n berchen arnyn nhw.**
- **Sefydlu set glir o gamau gweithredu i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni Uchelgeisiau Gwefru Cerbydau Trydan y Cyngor a nodir yn ffigur 2.**

# Cyflwyno Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan

Mae angen cynyddu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan yn sylweddol er mwyn galluogi twf mewn perchnogaeth cerbydau trydan. Er mai'r uchelgais clir fyddai cael cyfleusterau gwefru cerbydau trydan ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, bydd y broses o gyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y tymor byr yn canolbwyntio i ddechrau ar osod seilwaith gwefru ar safleoedd cyrchfan oddi ar y ffordd. O dan **Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** (CCRTA), mae'r Cyngor wrthi'n gosod pwyntiau gwefru sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn 31 o feysydd parcio'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i sefydlu trefn prosesau a argymhellir y dylai gosodwyr eu dilyn wrth osod seilwaith gwefru. O'r herwydd, bydd y camau yma'n cael eu nodi a'u crynhoi ar ffurf model cyflawni sy'n berthnasol i wefru oddi ar y stryd. Bydd defnyddio'r model hwn yn sicrhau y cedwir at y prosesau angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith gwefru ar draws y Fwrdeistref Sirol. Ar y cyd â hyn, bydd Rhestr Wirio Cyn Gosod o gwestiynau i'w hystyried yn cael ei datblygu i arwain gosodwyr drwy'r broses osod.

Mae'r Cynllun Gweithredu yma'n nodi pum thema allweddol i nodi'r ystyriaethau y dylid eu gwneud wrth osod seilwaith gwefru; gweler adrannau 2.1 i 2.5. Bydd y themâu yma'n cael eu defnyddio i lywio datblygiad y Model Cyflawni a'r Rhestr Wirio Cyn Gosod.



## Dewis Safle

Bydd angen cynnal dadansoddiad o addasrwydd safleoedd wrth asesu lleoliadau ar gyfer gosodiadau gwefru cerbydau trydan i sicrhau bod pob safle yn bodloni'r gofynion hanfodol. Mae ystyriaethau allweddol y dylid eu gwneud wrth asesu addasrwydd safle yn cynnwys defnydd targed, y ddarpariaeth bresennol o bwyntiau gwefru yn yr ardal, hygyrchedd, ac argaeledd cilfachau parcio.



### *Adolygiad Sylfaenol o'r Ddarpariaeth Wefru Bresennol a Chyfleoedd i Ehangu*

Mae'r gyfradd twf disgwyliedig mewn perchnogaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) ledled y DU, Cymru, a RhCT yn pwysleisio'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth wefru ar draws y Fwrdeistref Sirol i gyfateb â'r galw. I osod gwaelodlin, bydd ymarfer mapio yn cael ei gynnal i nodi lleoliadau pwyntiau gwefru cerbydau trydan sydd wedi'u gosod ac sydd yn yr arfaeth ledled Rhondda Cynon Taf. Bydd y map yn cael ei ddefnyddio i hysbysu darpar ddatblygwyr am y ddarpariaeth bresennol o seilwaith gwefru i helpu i nodi lleoliadau pwyntiau gwefru cerbydau trydan posibl yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gweithio gydag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyflwyno pwyntiau gwefru mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae Ffigur 3, gweler yr atodiad, yn dangos crynodeb o'r cynlluniau presennol sy'n darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynnwys Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, datblygiadau ysgolion newydd, depos fflyd y Cyngor, ac adeiladau annomestig.

### *Nodi ffynonellau ariannu sydd ar gael*

Mae gan y **Swyddfa Cerbydau Dim Allyriadau (OZEV)** set o gynlluniau cyllid grant a allai fod ar gael i helpu i dalu costau prynu a gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan. Mae’r cynlluniau ariannu sydd ar gael, ym mis Rhagfyr 2022, wedi’u crynhoi yn Ffigur 4; gweler yr atodiad.

## Dyluniad y Safle a Hygyrchedd

Mae yna nifer o ystyriaethau y dylid eu gwneud yn nyluniad a gosodiad y pwynt gwefru, man parcio, a seilwaith ychwanegol i sicrhau diogelwch, hygyrchedd a rhwyddineb defnydd.

### *Gwefru Cyhoeddus mewn Meysydd Parcio sy'n eiddo i'r Cyngor*

Disgwylir y bydd gwefru cyrchfan, yn bennaf o fewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor a safleoedd eraill gan gynnwys canolfannau hamdden, parciau ac atyniadau diwylliannol, yn chwarae rhan allweddol yn narpariaeth seilwaith pwyntiau gwefru yn y dyfodol. Bydd gwefru mewn meysydd parcio yn un o'r ffyrdd mwyaf hwylus i ddefnyddwyr wefru eu cerbydau. Uchelgais y Cyngor yw archwilio ac asesu ei bortffolio o dir sy'n eiddo i'r Cyngor, er mwyn annog cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan ar asedau cyfredol, a chynyddu argaeledd a hygyrchedd, gan ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio cerbydau trydan.

Dylai gosod pwyntiau gwefru ym mhob datblygiad maes parcio cyhoeddus newydd ganiatáu cydymffurfio â **Safon Hygyrchedd BSI PAS:1899 newydd ar gyfer Seilwaith Gwefru Cerbydau**. Mae hyn yn fanyleb newydd ar bwyntiau gwefru cyhoeddus hygyrch ar gyfer cerbydau trydan.

Mae'n ymdrin â dyluniad a lleoliad pwyntiau gwefru, gan gynnwys y bylchau rhwng lleoliadau a'r amgylchedd o'u cwmpas, yn ogystal â'r wybodaeth, yr arwyddion a'r dangosyddion sydd i'w darparu. Dydy hygyrchedd ddim wedi'i gyfyngu i bobl anabl gan y bydd hefyd yn cynnwys pobl llai abl sydd ddim yn gyrru sydd angen defnyddio'r pwyntiau gwefru a'r boblogaeth sy'n heneiddio yn y DU.

Dylid ystyried darparu digon o arwyddion a marciau cilfachau parcio i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac i sicrhau bod y mannau parcio yn cael eu cadw at ddefnydd cerbydau trydan yn unig. Wrth osod arwyddion, bydd yn rhaid penderfynu ar yr amser penodedig i gerbydau barcio yn y bae. Yn dilyn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu yma, bydd set o ganllawiau arfer gorau yn cael eu paratoi i arwain gosod seilwaith gwefru mewn ffordd briodol.



## *Gwefru mewn Maes Parcio Ysgolion*

O dan Bolisi 12 o **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**, mae'n ofynnol i bob ysgol newydd gynnwys o leiaf 10% o'r holl leoedd parcio ar gyfer gwefru cerbydau trydan. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ymchwilio i holl feysydd parcio eraill yr ysgol i weld a ydyn nhw'n addas ar gyfer ôl-osod cyfleusterau gwefru cerbydau trydan. Tra bydd yr unedau gwefru cerbydau trydan yma'n cael eu defnyddio'n bennaf gan gerbydau ysgol, e.e. bysiau mini a gan staff ysgolion, mae'n bosibl y bydd yr unedau gwefru yma ar gael i drigolion eu defnyddio y tu allan i oriau agor yr ysgol. Serch hynny, mae hyn yn cyflwyno her yn yr ystyr bod yn rhaid caniatáu mynediad cyhoeddus i'r unedau gwefru a chadw adeiladau a thiroedd yr ysgol yn ddiogel hefyd. Mae'n bosibl y bydd potensial i ddatblygu 'cylch allanol' mwy agored lle mae'r unedau gwefru wedi'u lleoli a 'chylch mewnol' mwy diogel i amddiffyn disgyblion ac adeiladau'r ysgol.




## *Gwefru i Ymwelwyr, Cwsmeriaid ac mewn Gweithleoedd ar Safleoedd Preifat, Safleoedd Trydydd Sector a Safleoedd y Cyngor*

Mae Llywodraeth y DU yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gwefru yn y gweithle drwy roi cymhorthdal tuag at gost gosod unedau gwefru cerbydau trydan drwy'r Cynllun Gwefru yn y Gweithle. Mae **Polisi Cynllunio Cymru 11** (PCC11) yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai'r system gynllunio annog darparu pwyntiau gwefru trydan yn rhan o unrhyw ddatblygiad newydd. Ar gyfer datblygiadau dibreswyl, newydd ac wedi'u hadnewyddu'n sylweddol, mae'n ofynnol i 10% o leoedd parcio gael darpariaeth ar gyfer gwefru cerbydau trydan.

Bydd trawsnewid fflyd y Cyngor i fod yn gerbydau trydan yn bennaf yn gofyn am argaeledd seilwaith gwefru yn agos at y man lle mae cerbydau'n cael eu storio, er enghraifft mewn depos. Bydd cynllun y Cyngor i bontio o gerbydau â modur tanio mewnol i gerbydau allyriadau isel iawn dros y 6 mlynedd nesaf yn cael ei hwyluso yn unol â'r Cynllun Pontio Cerbydau Trydan.

Er bod fflyd y Cyngor yn cael ei gwefru dros nos yn bennaf, bydd y Cyngor yn ystyried ymarferoldeb caniatáu i staff ddefnyddio'r pwyntiau gwefru yn ystod y diwrnod gwaith lle mae hyn yn ymarferol ac yn ddiogel. Er bod cyfleoedd da i ddarparu pwyntiau gwefru ar dir y Cyngor, mae heriau sylweddol hefyd, yn enwedig o ran capasiti'r rhwydwaith cyflenwi trydan lleol a'r angen am drefn cynnal a chadw barhaus, i sicrhau bod yr holl unedau gwefru mewn man diogel ac mewn cyflwr defnyddiadwy.



## Gwefru mewn Ardaloedd Preswyl

Mae gofynion cynllunio Llywodraeth Cymru wedi’u diweddaru i sicrhau bod yn rhaid i bob eiddo domestig newydd sydd â pharcio oddi ar y stryd fod yn barod i wefru cerbydau trydan, h.y. bod y cysylltiadau trydanol eisoes ar gael yn yr eiddo, er mai perchnogion tai newydd fydd yn penderfynu pryd i osod yr unedau gwefru.

Mae Rhondda Cynon Taf, fel y rhan fwyaf o Dde Cymru, wedi'i nodweddu'n fras gan resi o dai teras a ffyrdd cul lle mae tagfeydd traffig. O'r herwydd, mae'n cyflwyno heriau wrth benderfynu sut i lywio'r gwaith o ehangu'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan (Email: **GwefruCerbydauTrydan@rctcbc.gov.uk**). Dylai gosodwyr ddarllen Adrannau **133**, **152** ac **162** o’r Ddeddf Priffyrdd i gael rhagor o wybodaeth am y sefyllfa gyfreithiol y bydd unigolyn yn ei hwynebu wrth ystyried seilwaith taliadau preswyl.

Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd darparu seilwaith gwefru ledled y Fwrdeistref Sirol, mewn lleoliadau preswyl a chyhoeddus. O'r herwydd, bydd y Cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod darpariaeth pwyntiau gwefru yn cael ei darparu mewn lleoliadau sydd â chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer gwefru cerbydau trydan ar safleoedd cyrchfan. Bydd hefyd yn archwilio'r cyfleoedd posibl i greu cyfleusterau gwefru yn agos at ardaloedd preswyl. Bydd y dull yma'n ceisio lleddfu'r materion sy'n ymwneud â hygyrchedd a phryderon diogelwch sy'n gysylltiedig â gosod pwyntiau gwefru preswyl ar y stryd.

## Gofynion Hygyrchedd a'r Iaith Gymraeg

Fel Cyngor cynhwysol, rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal a hygyrchedd ym mhob agwedd ar ein gweithgareddau, gan gynnwys ym maes darpariaeth gwefru cerbydau trydan. Wrth ddatblygu a gweithredu'r broses o gyflwyno seilwaith gwefru, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn bodloni ei rwymedigaethau o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** a **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** a gwneud penderfyniadau gan roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal.



## Gosodiad Trydanol Cychwynnol

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cynhwysedd trydanol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn amrywio o ran ansawdd a chryfder. O'r herwydd, mae'r gallu i gyflwyno seilwaith gwefru yn dibynnu yn y pen draw ar allu'r rhwydwaith trydan lleol i'w gynnal. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â Western Power Distribution (WPD) yn gynnar i benderfynu ar ddigonolrwydd capasiti'r grid a goblygiadau cost uwchraddio'r rhwydwaith os oes angen. Bydd y Cyngor hefyd yn asesu ei botensial ar gyfer cynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy ar draws ei eiddo i ddarparu pŵer ar gyfer canolfannau gwefru.

### *Darparu Pwyntiau Gwefru Gweithredol a Goddefol*

Wrth ddewis y math o dechnoleg pwynt gwefru i'w gosod ar y safle o'u dewis, dylai gosodwyr hefyd ystyried maint y dechnoleg wefru, ynghyd â chostau cysylltiedig. Yn nodweddiadol, bydd yn rhaid i osodwyr asesu addasrwydd gosod pwynt gwefru gweithredol neu oddefol. Mae pwyntiau gwefru gweithredol wedi'u cysylltu'n llawn, mae ganddyn nhw'r capasiti trydanol gofynnol ac maen nhw'n barod i'w defnyddio i wefru unrhyw gerbyd trydan mewn mannau parcio dynodedig. Mae gan bwyntiau gwefru goddefol y ddarpariaeth seilwaith angenrheidiol ar waith i sicrhau ei bod hi'n syml i osod pwyntiau gwefru a'u rhoi ar waith yn y dyfodol. Dylai trefniadau y mae'n rhaid eu gwneud cyn dynodi lle ar gyfer pwynt gwefru goddefol ar gyfer cerbydau trydan gynnwys y seilwaith sylfaenol angenrheidiol, megis capasiti digonol yn y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol, llwybrau ceblau i'r man(nau) parcio ac ystyriaethau eraill o'r fath.



# Uned Wefru Cerbydau Trydan

### *Addasrwydd y Math o Wefru*

Dylid rhoi ystyriaeth i ddefnydd a phwrpas y safle wrth ddewis y seilwaith gwefru priodol i'w osod. Mae gwybodaeth am gyflymder y gwahanol bwyntiau gwefru yn Ffigur 5, yn yr atodiad. Disgwylir y bydd pwyntiau gwefru cyflym yn safonol ar gyfer y seilwaith gwefru ar draws y Fwrdeistref Sirol oherwydd eu haddasrwydd ar gyfer gwefru ar draws ystod eang o fathau o safleoedd, ynghyd â materion rhwydwaith cyflenwi trydan. Dydy'r Cynllun Gweithredu yma ddim yn ystyried defnyddio seilwaith gwefru araf neu araf iawn (trickle) wrth ei gyflwyno ar draws y Fwrdeistref Sirol gan fod eu cyflymder gwefru araf yn eu gwneud yn anaddas at ddefnydd cyhoeddus i raddau helaeth.

### *Dadansoddiad o'r Gost*

Bydd angen ystyried yr holl gostau sy'n ymwneud â chyflenwi, gosod, gweithredu a chynnal a chadw'r seilwaith pwyntiau gwefru a darparu adnoddau priodol. Mae'r costau amcangyfrifedig fesul pwynt gwefru cerbydau trydan ar gyfer ystod o gerbydau y cyfeirir atyn nhw drwy'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu sydd i'w gweld yn Ffigur 6 yn yr atodiad. Yn ogystal â'r gost fesul pwynt gwefru, bydd costau pellach yn cael eu cronni ar gyfer y system rheoli pwyntiau gwefru, cynnal a chadw blynyddol, bolard neu gyrbau amddiffynnol, gwaith daear ac arwyddion a'r posibilrwydd o uwchraddio rhwydwaith o gapasiti mewnforio uchaf y safle (kVA).






# Gweithredu a Diogelwch

### *Cyswllt ar gyfer Ymholiadau'r Cyngor*

Bydd y Cyngor yn sefydlu un pwynt cyswllt ar gyfer pob ymholiad yn ymwneud â gosod pwyntiau gwefru ar dir y Cyngor (**GwefruCerbydauTrydan@rctcbc.gov.uk**). Yn ogystal, bydd y Cyngor yn asesu'r angen am ragor o aelodau staff y Cyngor i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Mae diogelwch o'r pwys mwyaf i gyflwyno'r seilwaith gwefru er mwyn sicrhau diogelwch a lles. O'r herwydd, dylai pob safle ystyried a gweithredu teledu cylch cyfyng priodol o'r ardal, gosod digon o oleuadau i sicrhau gwelededd yn ystod tywydd gwael a'r nos a chynnal llinell gymorth fel bod modd i holl ddefnyddwyr y pwynt gwefru ofyn am gymorth os oes angen.

# Cyfleoedd Gwefru Amrywiol

Er bod y Cyngor ddim yn uniongyrchol gyfrifol am weithredu bysiau, cerbydau llai a chlybiau ceir, mae'r Cyngor yn gobeithio parhau i ymgysylltu â phartneriaid i geisio gwireddu'r holl gyfleoedd ariannu sydd ar gael a hwyluso'r twf yn y ddarpariaeth mannau gwefru ar draws y Fwrdeistref Sirol.

## Gwefru Tacsis

Mae tacsis (Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat) yn RhCT wedi'u trwyddedu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef yr Awdurdod Trwyddedu. Bydd y Cyngor yn cefnogi'r gwaith a wneir gan Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i sefydlu rhwydwaith gwefru ar gyfer tacsis trydan ar draws y rhanbarth. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i nodi lleoliadau allweddol lle mae modd gosod y pwyntiau gwefru mwyaf manteisiol i hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan gan weithredwyr tacsis.




## Gwefru Bysiau

Er bod y Cyngor ddim yn gweithredu unrhyw fysiau gwasanaeth cyhoeddus, bydd y Cyngor yn ymgynghori o bryd i'w gilydd â gweithredwyr bysiau lleol, os bydd angen pwyntiau gwefru yn ein prif orsafoedd bysiau. Fel Cyngor, byddwn ni hefyd yn gweithio gyda chontractwyr sy'n darparu gwasanaethau allanol megis cludiant o'r cartref i'r ysgol i sicrhau bod y seilwaith gwefru sy'n cael ei ddarparu'n ddigonol, pe bai angen. Byddwn ni'n parhau i adolygu datblygiadau technolegol mewn partneriaeth â gweithredwyr bysiau, y Llywodraeth a diwydiant i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer fflyd bysiau glân sy'n fasnachol ymarferol a chynaliadwy.


## Mân Gerbydau

Bydd yr adran yma'n ymwneud â gwefru e-feiciau modur, e-fopedau, e-feiciau a sgwteri symudedd. Mae gan rai e-feiciau modur ac e-fopedau y potensial i gael eu gwefru mewn gorsafoedd gwefru cyhoeddus gan ddefnyddio unedau araf (3–7 kW). Serch hynny, mae'n rhaid gwefru e-feiciau a sgwteri symudedd drwy ddefnyddio soced 3-phin safonol a does dim modd eu gwefru mewn gorsafoedd gwefru cyhoeddus.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i bob math o fân gerbydau drwy ymchwilio i opsiynau i ddarparu cyfleusterau gwefru cyhoeddus dan do ar gyfer y batris datodadwy yn unig. Byddai hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cerbydau (e-feiciau a sgwteri symudedd) gael eu parcio a'u diogelu yn ôl yr arfer tra bod cyfleusterau gwefru batris ar gael mewn adeiladau neu safleoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, (e.e. llyfrgelloedd cyhoeddus neu adeiladau mewn parciau).

## Clybiau Ceir

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Thîm Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gefnogi datblygiad Clybiau Ceir Cerbydau Trydan yn Rhondda Cynon Taf. Bydd annog cynlluniau o'r fath yn galluogi buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol trwy gynyddu mynediad i gerbydau trydan i'r rhai sydd heb y modd na'r awydd i brynu un. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y cyfle i glybiau ceir o'r fath yn ei fflyd lwyd.




# Cynllun Gweithredu

Mae Cynllun Camau Gweithredu ar gyfer y Cyhoedd a Chynllun Cyflawni Mewnol wedi'u llunio i gefnogi cyflawni'r 'Uchelgeisiau' sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan, gweler ffigur 2, yr ymrwymiadau sydd wedi'u nodi yn **Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor**, ac er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno seilwaith gwefru ar draws y Fwrdeistref Sirol yn llwyddo.

Diben y Cynllun Camau Gweithredu ar gyfer y Cyhoedd fydd sefydlu camau gweithredu a mesurau a ddefnyddir i fonitro gwelliannau o ran darparu seilwaith gwefru ledled y Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys:

- Nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan a osodwyd ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Nifer y cerbydau trydan a berchnogir ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Cyfran y cerbydau trydan yn fflyd y Cyngor.
- Nifer yr ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd ynghylch gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Pwrpas y Cynllun Cyflawni Mewnol yw nodi'r camau gweithredu, cerrig milltir cynnydd a'u hamserlen ddisgwyliedig ar gyfer eu cwblhau, fel sy'n ofynnol gan bob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor.

Mae'r Cynllun Cyflawni Mewnol yn manylu ar yr wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r weithred
- Cyfeirnod y weithred
- Is-weithred/ carreg filltir
- Is-weithred/ rhif cyfeirnod carreg filltir
- Dyddiad cyflawni
- Swyddog sy'n atebol
- Maes gwasanaeth sy'n atebol

# Rhestr Termau

## Mathau o gerbydau:

**Cerbyd Trydan (EV)** - Term a ddefnyddir i gwmpasu pob cerbyd sy'n defnyddio trydan fel ffynhonnell tanwydd.

**Cerbyd Allyriadau Isel Iawn** - Cerbyd sy'n cynhyrchu llai na 75g o garbon deuocsid am bob cilomedr a yrrir.

**Fflyd CCS** - Cerbyd Casglu Sbwriel.

**Fflyd CNT** - Cerbydau nwyddau trwm. Cerbydau 4-olwyn wedi'u hadeiladu ar gyfer cludo nwyddau. Rhaid eu bod yn pwyso mwy na 3.5 tunnell.

**Fflyd CNY** - Cerbydau nwyddau ysgafn. Cerbydau mwy wedi'u hadeiladu ar gyfer cludo nwyddau. Rhaid bod ganddyn nhw bwysau gros o 3.5 tunnell neu lai.

**Cerbydau Batri Trydan** - Cerbyd sy'n rhedeg yn gyfan gwbl ar drydan sy'n cael ei bweru gan fatri ac sy'n cael ei wefru gan ddefnyddio pwynt gwefru pwrpasol sy'n defnyddio'r prif gyflenwad trydan.

**Hybrids** - Injan hylosgi a modur gyriant trydan. Batri sy'n cael ei wefru trwy frecio atgynhyrchiol, pellter allyriadau sero isel iawn.

**Fflyd Llwyd** - Unrhyw gerbydau sydd ddim yn perthyn i gwmni neu sefydliad, ond sy'n cael eu defnyddio ar gyfer teithiau busnes. Mae modd i hyn gynnwys cerbyd a brynwyd drwy gynllun perchnogaeth gweithwyr, cerbyd a rentir yn breifat, neu gerbyd preifat.

## Gwefru:

**Gwefru Araf Iawn** - Y ffurf wefru arafaf ar lai na 2kW gan ddefnyddio plwg 3-phin. Angen llawer o amser, defnyddir fel arfer ar gyfer gwefru gartref dros nos.

**Gwefru Araf** - Fel arfer yn gwefru ar lai na 7kW ac yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer gwefru cerbydau batri trydan dros nos ac ychwanegiadau ar gyfer cerbydau hybrid. Mae ganddo amser gwefru o 8-12 awr. Amseroedd gwefru cyflymach a gwell nodweddion diogelwch na phlygiau 3-phin.

**Gwefru Cyflym** - Cyfradd gwefru o 7-22kW sydd fel arfer yn gyflymach ac sy'n galluogi defnyddwyr i wneud gwell defnydd o dariffau ynni allfrig. Amser gwefru nodweddiadol o 1.5-5 awr.


**Gwefru Cyflym Iawn** - Fel arfer yn gwefru ar gyfradd 43-350kW gydag amser gwefru cyfartalog rhwng 15 a 45 munud. Mae'r rhain yn gyffredinol wedi'u lleoli mewn gorsafoedd gwasanaeth a lleoliadau cyhoeddus.

**Cilowat (kW)** - Mesur o'r pŵer gweithredol sydd ar gael.

**Awr Cilowat (kWh)** - Mesur o'r ynni sy'n cael ei storio neu ei ddefnyddio, a ddefnyddir hefyd i fesur defnydd ynni batri cerbydau trydan.

# Atodiad


## Gwybodaeth Ategol




*Ffigwr 1: Map Gwefru Cerbydau Trydan Cyngor RhCT*

## Ein Huchelgeisiau

1. Datblygu Cynllun Gweithredu i gyflwyno seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan yn raddol wedi'i alinio â'r galw yn y dyfodol, gyda gwefrwyr sy'n addas o ran cyflymder a phŵer ar gyfer pob cerbyd gan gynnwys ceir, tacsis, bysiau, e-feiciau modur, e-feiciau, sgwteri symudedd.
2. Dangos yr angen am Seilwaith Cerbydau Trydan trwy weithio gyda phartneriaid, lle bo hynny'n berthnasol, i sicrhau cyfleoedd cyllid allanol a helpu i ateb y galw.
3. Adolygu ein Polisïau Cynllunio, wrth weithio gyda thirfeddianwyr a datblygwyr i sicrhau bod y cyfleoedd pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn cael eu nodi a'u dilyn, i hyrwyddo dulliau cludo cynaliadwy.
4. Monitro ansawdd yr aer, i werthuso'r berthynas rhwng y nifer sy'n prynu cerbydau trydan ac ansawdd gwell yr aer, gan hyderu y bydd effeithiau niweidiol llygryddion aer ar iechyd y cyhoedd yn cael eu lleihau.
5. Datblygu cyfres o fodelau ar gyfer cyllido, defnyddio a rheoli.
6. Nodi'r holl gyrchfannau addas ar gyfer gosod pwyntiau gwefru. ('Gwefru Cyrchfan').
7. Nodi lleoliadau addas ar gyfer 'Gwefru yn y Gweithle' ar draws holl safleoedd RhCT a gweithio gyda sectorau eraill, lle bo hynny'n berthnasol, i gynyddu gwefru yn y gweithle, i ateb y galw fel sy'n briodol.
8. Gweithio gyda thrigolion i godi ymwybyddiaeth a chanfod y ffordd orau o wefru cerbydau lle mae cyfyngiadau cynllunio, corfforol a/neu dechnegol yn golygu nad yw'r dull dewisol o wefru yn ymarferol nac yn gyraeddadwy.
9. Ystyried y posibilrwydd o gyflwyno clybiau ceir yn y Fwrdeistref Sirol.
10. Trawsnewid ein fflyd mewn ffordd gynlluniedig ac ymarferol fel bod y dull cludo'n fwy cynaliadwy.



*Ffigwr 2: Uchelgeisiau Gwefru Cerbydau Trydan CBSRhCT*

# Cynlluniau Pwynt Gwefru Trydan Cyfredol mae CBSRhCT yn eu Defnyddio

**Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd:** Mae'r Awdurdod yn bwriadu gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan at ddefnydd y cyhoedd mewn 31 o feysydd parcio sy'n hygyrch i'r cyhoedd ledled Rhondda Cynon Taf.

**Datblygiadau Newydd mewn Ysgolion:** Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn gofyn bod o leiaf 10% o fannau parcio mewn unrhyw faes parcio newydd mewn ysgolion yn fannau gwefru gweithredol gyda'r nod o neilltuo 10% arall ar gyfer gosod rhagor o unedau yn y dyfodol.

**Depos y Cyngor:** Mae’r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a’i nod yw canolbwyntio gwariant ar osod unedau gwefru ar safleoedd depo’r Cyngor ar gyfer gwefru cerbydau fflyd.

**Adeiladau annomestig:** Cynllun Cenedlaethol 2040 Llywodraeth Cymru yn nodi bod gofyn i bob adeilad annomestig newydd neu sydd wedi'i adnewyddu'n sylweddol ac sydd â mannau parcio penodedig sicrhau bod o leiaf 10% o'r mannau parcio wedi'u neilltuo ar gyfer gwefru cerbydau trydan (EV).

*Ffigwr 3: Cynlluniau presennol sy'n darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan ledled Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf*

# Cynlluniau Ariannu

Mae gan y Swyddfa Cerbydau Dim Allyriadau gyfres o gynlluniau cyllid grant sydd ar gael i helpu i dalu costau prynu a gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan.

## Cynllun Gwefru yn y Gweithle

Mae'r cynllun yma ar gael i fusnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus. Yn cwmpasu 75% o gyfanswm costau prynu a gosod mewn cyfleusterau oddi ar y stryd gyda mannau parcio wedi'u neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer parcio staff a/neu fflyd.

Cyfrifoldeb Perchennog y Pwynt Gwefru fydd cynnal y pwynt gwefru am o leiaf 3 blynedd.

**Uchafswm o £350 fesul uned pwynt gwefru.**

**Uchafswm o 40 uned pwynt gwefru ar draws pob safle fesul ymgeisydd.**

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yma.

## Cynllun Gwefru ar y Stryd i Breswylwyr

Mae'r cynllun yma ar gael i Awdurdodau Lleol. Mae'n cwmpasu 60% o gostau cyfalaf cymwys ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y stryd mewn lleoliadau lle does dim pwyntiau gwefru oddi ar y stryd.

Mewn ardaloedd lle mae'n anodd gosod pwyntiau gwefru ar y stryd, bydd ceisiadau am feysydd parcio sy'n eiddo i'r awdurdod lleol ger ardaloedd preswyl yn cael eu hystyried.

**Uchafswm o £7,500 am bob gosodiad pwynt gwefru.**

**Bydd prosiectau sydd â dyddiad cwblhau cyn 31 Mawrth 2024 yn cael eu hystyried.**

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yma.

## Grant Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Mae'r cynllun yma ar gael i berchen-feddianwyr fflatiau a phobl sy'n byw mewn eiddo ar rent. Mae'n talu £350 neu 75% o'r gost o brynu a gosod pwynt gwefru, pa bynnag swm sydd isaf. Mae modd ei ddefnyddio gan eiddo sydd â lleoedd parcio dynodedig oddi ar y stryd. Rhaid i'r cwsmer fod yn berchen ar gerbyd cymwys.

**Uchafswm o £350 am bob gosodiad pwynt gwefru.**

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yma.

*Ffigwr 4: Cynlluniau Ariannu Sydd Ar Gael gan y Swyddfa Cerbydau Dim Allyriadau (OZEV), ym mis Awst 2022*

# Asesiad o Addasrwydd y Dulliau o Wefru

## Cyflym (7kW)

Amser Gwefru (Tua): 5 awr

Cost Cysylltu (Tua): £1,000 – 3,000

Amser i Drefnu Gosod y Cysylltiad (Tua): 6 i 10 wythnos

Ystyriaethau o ran y Rhwydwaith a Thrydydd Partïon: Mae'n debygol bydd angen uwchraddio'r cebl gwasanaeth a'r prif gyflenwad lleol

**Mae safleoedd priodol yn cynnwys:**

- Ardaloedd preswyl
- Adeiladau domestig gyda pharcio oddi ar y stryd
- Gwefru ychwanegol mewn gweithleoedd

## Cyflym (22kW)

Amser gwefru (Tua): 1.5 awr

Cost cysylltu (Tua): £3,500 – 12,000

Amser i Drefnu Gosod y Cysylltiad (Tua): 8 i 12 wythnos

Ystyriaethau o ran y Rhwydwaith a Thrydydd Partïon: Gwaith stryd a chaniatadau

**Mae safleoedd priodol yn cynnwys:**

- Meysydd parcio
- Gweithleoedd
- Adeiladau domestig gyda pharcio oddi ar y stryd

Sylwch: byddai gosod pwyntiau gwefru cyflym ar eiddo domestig yn gofyn am gyflenwad tri cham neu uwchraddio'r capasiti.

## Cyflym iawn (43kW+)

Amser gwefru (Tua): 45 munud

Cost cysylltu (Tua): £4,000 – 25,000

Amser Arweiniol ar gyfer Cysylltiad: Tua 7 - 10 mis


Ystyriaethau o ran y Rhwydwaith a Thrydydd Partïon: Gwaith stryd a chaniatadau

**Mae safleoedd priodol yn cynnwys:**

- Siopau ac archfarchnadoedd
- Ger ffyrdd 'A' prysur neu draffyrdd

Yn addas ar gyfer gwefru wrth fynd a gwefru mewn lleoliadau lle mae pobl yn aros am amser byr oherwydd eu cyflymder gwefru cyflym.


*Ffigwr 5: Asesiad o Addasrwydd y Mathau o Bwyntiau Gwefru, Costau Cysylltu ac Amserlenni Cysylltiad ar gyfer Gwefru Cyflym (7kW), Cyflym (22kW) a Chyflym Iawn (43kW+) Ffynhonnell:* **Strategaeth Wefru WPD Ebrill 2020**.




*Ffigwr 6: Amcangyfrifon Cost Pwyntiau Gwefru Fesul Dosbarth Cerbyd*

# Cynllun Camau Gweithredu Isadeiledd **Gwefru Cerbydau Trydan**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



Rhondda Cynon Taf
Hinsawdd Ystyriol
Think Climate
Rhondda Cynon Taf

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

RHONDDA CYNON TAF


## Cam Gweithredu Trosfwaol Cyf #A01

**Datblygu strategaeth gwefru cerbydau trydan y Cyngor a'i chynllun gweithredu ategol. Bydd hyn yn darparu ar gyfer anghenion trafnidiaeth y rheiny sy'n defnyddio cerbydau trydan nawr ac yn y dyfodol.**

RHONDDA CYNON TAF

## Amserlenni

Allwedd: Dim Cynnydd | Cynnydd | Cyflawni




| Cyf | Mesurau<br>a fydd yn helpu i olrhain y cam yma | Dyddiad Cyflawni (Diwedd) | Ydy'r cam gweithredu yma'n ymddangos mewn unrhyw gynllun/strategaeth arall? |
|---|---|---|---|
| A01 - M01 | Datblygu Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan RhCT a'i chyhoeddi ar wefan RhCT. | 2022 | Tudalen Strategaeth Newid Hinsawdd |
| A01 - M02 | Datblygu Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan. | 2022 | |
| A01 - M03 | Datblygu Cynllun Camau Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan RhCT i gefnogi'r Cynllun Gweithredu. | 2022 | |

# Cam Gweithredu Trosfwaol Cyf #A02

**Adolygu'r broses o newid cerbydau fflyd y Cyngor i sicrhau mai cerbydau allyriadau isel iawn yw'r dewis cyntaf lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.**




## Amserlenni

Allwedd: Dim Cynnydd / Cynnydd / Cyflawni





| Cyf | Mesurau a fydd yn helpu i olrhain y cam yma | Dyddiad Cyflawni (Diwedd) | Ydy'r cam gweithredu yma'n ymddangos mewn unrhyw gynllun/strategaeth arall? |
|---|---|---|---|
| A02 - M01 | Ymchwilio a datblygu cynllun pontio i helpu'r Cyngor i gyrraedd y nod o symud tuag at fflyd o gerbydau allyriadau isel iawn, gweithio gyda Charfan Rheoli Fflyd y Cyngor, Eiddo'r Cyngor, defnyddwyr terfynol a'u rheolwyr priodol ac Adran Gaffael y Cyngor. | 2023/24 Targed ar gyfer Cynllun Pontio Diwygiedig<br>2027/28 Targed ar gyfer sicrhau bod ceir a cherbydau nwyddau ysgafn yn gerbydau allyriadau isel iawn | Cynllun Pontio i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn |
| A02 - M03 | Caffael seilwaith gwefru cerbydau trydan sy'n bodloni gofynion gweithredu Rhaglen Amnewid Cerbydau sy'n cynnwys Cerbydau Trydan neu Gerbydau Allyriadau Isel Iawn | Parhaus | |

## Cam Gweithredu Trosfwaol Cyf #A03

**Gweithio ar y cyd â'r sector preifat i sefydlu rhwydwaith hygyrch o gyfleoedd gwefru cerbydau trydan, a buddsoddi ynddyn nhw, i ysgogi'r farchnad ac ehangu cyfleoedd gwefru cerbydau trydan. Erbyn 2030, byddwn ni'n sicrhau bod 90% o drigolion y sir sydd heb fynediad at gyfleuster gwefru cerbydau trydan gartref o fewn milltir i bwynt gwefru cerbydau trydan sy'n hygyrch i'r cyhoedd.**

### Amserlenni

Allwedd: Dim Cynnydd | Cynnydd | Cyflawni




| Cyf | **Mesurau** a fydd yn helpu i olrhain y cam yma | Dyddiad Cyflawni (Diwedd) | Ydy'r cam gweithredu yma'n ymddangos mewn unrhyw gynllun/strategaeth arall? |
|---|---|---|---|
| A03 - M01 | Cynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod yn eiddo'r Cyngor yn ystod y pum mlynedd nesaf. | 2027 | Tudalen Strategaeth Newid Hinsawdd |
| A03 - M02 | Cynnydd yn nifer y dyfeisiau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth erbyn 2025. | 2025 | |
| A03 - M03 | Man gwefru cerbydau trydan o fewn milltir o 90% o'r cartrefi preswyl sydd heb fynediad i fan gwefru preifat. | 2030 | |
| A03 - M04 | Bydd 5% o gilfachau mewn meysydd parcio sy'n eiddo i'r Cyngor yn gilfachau gwefru erbyn 2028. | 2028 | |



# Cam Gweithredu Trosfwaol Cyf #A04

**Helpu darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i ddod yn fwy cynaliadwy a newid o dacsis a bysiau diesel i rai trydan.**

## Amserlenni

Allwedd: Dim Cynnydd / Cynnydd / Cyflawni




| Cyf | **Mesurau** a fydd yn helpu i olrhain y cam yma | Dyddiad Cyflawni (Diwedd) | Ydy'r cam gweithredu yma'n ymddangos mewn unrhyw gynllun/strategaeth arall? |
|---|---|---|---|
| A04 - M01 | Newid yng nghanran y cerbydau di-allyriadau sy'n cludo teithwyr erbyn 2030. | 2030 | **Tudalen Strategaeth Newid Hinsawdd** |

## Cam Gweithredu Trosfwaol Cyf #A05

**Sicrhau bod y gwasanaethau trafnidiaeth rydyn ni'n eu comisiynu, gan gynnwys y cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, yn ddi-garbon neu'n garbon isel lle bo modd.**





## Amserlenni

Allwedd: Dim Cynnydd / Cynnydd / Cyflawni




| Cyf | **Mesurau** a fydd yn helpu i olrhain y cam yma | Dyddiad Cyflawni (Diwedd) | Ydy'r cam gweithredu yma'n ymddangos mewn unrhyw gynllun/strategaeth arall? |
|---|---|---|---|
| A05 - M01 | % y bysiau a choetsys cludiant ysgol ar gontract sy'n cydymffurfio ag EURO VI neu'n uwch erbyn 2025. | 2030 | Tudalen Strategaeth Newid Hinsawdd |



# Gwefru Cerbydau Trydan:

## Cynllun Gweithredu | Cynllun Cyflawni Seilwaith

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

JN: 51808-41

Rhondda Cynon Taf
Hinsawdd Ystyriol
Think Climate
Rhondda Cynon Taf

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

RHONDDA CYNON TAF